



# Helpu pobl anabl i bleidleisio: fersiwn hawdd ei ddarllen

## Cynnwys

Gwybodaeth am y ddogfen hon ................................ 2
Amdanom ni.......................................................... 3
Cyflwyniad ........................................................... 4
Beth sy’n atal pobl rhag pleidleisio? ......................... 5
Cyfarpar i helpu pobl i bleidleisio .............................. 5
Penderfynu pa gyfarpar i gael mewn **gorsafoedd pleidleisio** ........................................................... 8
Hyfforddiant ......................................................... 9
Rhoi gwybod i bobl ................................................. 9
Gweithio gyda sefydliadau eraill.............................. 10
Beth weithiodd yn dda ............................................ 12
Geiriau a ddefnyddir yn y fersiwn hawdd ei ddarllen hwn ......................................................... 13

## Gwybodaeth am y ddogfen hon



Mae'r ddogfen hawdd ei ddarllen hon yn cynnwys yr hyn y dylai **Swyddogion Canlyniadau** ei wneud i helpu pobl anabl i bleidleisio mewn **gorsaf bleidleisio.**



Darllenwch y fersiwn ddim yn hawdd ei ddarllen i weld gwybodaeth **ar gyfer Swyddogion Canlyniadau**.



Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ddogfen hon neu'r wybodaeth ar gyfer **Swyddogion Canlyniadau**, gallwch chi ffonio ni gan ddefnyddio **0333 103 1928**.




Defnyddiwyd y geiriau 'pobl anabl' yn y ddogfen hon oherwydd bod pobl yn cael eu hanablu gan yr hyn sydd o'u cwmpas.



Er enghraifft, mae rhywun sy’n defnyddio cadair olwyn yn anabl os oes grisiau i fynd i mewn i adeilad.



Nid yw’r un person yn anabl os oes ramp i fynd i mewn i’r adeilad.



Mae arolwg hawdd ei ddarllen am y wybodaeth yn y ddogfen hon.




[Darllenwch a chymerwch ran yn yr arolwg.]




**Amdanom ni**

Ni yw’r Comisiwn Etholiadol.  Mae’r Comisiwn Etholiadol yn gyfrifol am etholiadau yn y DU.




Darganfyddwch ragor ar wefan y Comisiwn Etholiadol.




**Cyflwyniad**

Dylai pawb gael yr hawl i bleidleisio yn **annibynnol** ac yn **gyfrinachol.**



Mae’n bosibl y bydd pobl anabl angen cymorth ychwanegol neu gyfarpar fel y gallant bleidleisio yn annibynnol ac yn gyfrinachol.




Mae cyfreithiau sy'n dweud bod yn rhaid i **Swyddogion Canlyniadau** helpu pobl anabl i bleidleisio.



## Beth sy’n atal pobl rhag pleidleisio?

Mae llawer o bethau yn atal pobl rhag pleidleisio.



Er enghraifft:

- mae pleidleisio yn rhy anodd
- dydy pobl ddim yn ymwybodol eu bod y gallant ofyn i bobl eraill eu helpu i bleidleisio
- mae pobl yn teimlo’n nerfus am fynd i’r **gorsaf bleidleisio**
- mae’n anodd cyrraedd **gorsaf bleidleisio**




## Cyfarpar i helpu pobl i bleidleisio

Dylai fod gan bob **gorsaf bleidleisio** cyfarpar i helpu pobl i bleidleisio’n **annibynnol** ac yn **gyfrinachol**.



Dylai pob gorsaf bleidleisio gynnwys:


- poster ym mhob **bwth pleidleisio** yn nodi sut i lenwi eu **papur pleidleisio**
- **papurau pleidleisio** mewn print bras




Gallwch edrych ar y **papur pleidleisio** print bras, ond ni allwch ei lenwi.



Os defnyddiwyd y **papur pleidleisio** print bras i bleidleisio, ni fyddech chi'n pleidleisio'n **gyfrinachol** oherwydd byddai pawb yn gwybod mai chi sy'n berchen a'r **papur pleidleisio**.




Mae gan **swyddogion canlyniadau** rhestr o gyfarpar sy'n helpu pobl anabl i bleidleisio.





Mae'r rhestr yn cynnwys cyfarpar a ddylai fod ym mhob **gorsaf bleidleisio**.



Er enghraifft:

- cadair neu gadeiriau
- chwyddwydrau i wneud testun yn fwy
- **bwth pleidleisio** ar lefel cadair olwyn
- bathodynnau enw ar gyfer staff
- rampiau os oes grisiau




Mae'r rhestr yn cynnwys cyfarpar a ddylai fod mewn **gorsaf bleidleisio.**

Er enghraifft:




- dolen sain ar gyfer pobl sydd wedi colli clyw
- **datrysiadau clyw** ar gyfer pobl sydd yn colli eu golwg
- gwybodaeth hawdd ei ddarllen

## Penderfynu pa gyfarpar i gael mewn gorsafoedd pleidleisio



Mae rhaid i **Swyddogion Canlyniadau** benderfynu pa gyfarpar i'w gael ym mhob gorsaf pleidleisio



Dylai **Swyddogion Canlyniadau** allu dweud sut maent wedi dod at benderfyniad o ran pa gyfarpar i'w gael.



Os bydd rhywun yn gofyn am rywfaint o gyfarpar mewn **gorsaf bleidleisio**, mae'n rhaid i'r **Swyddog Canlyniadau** ystyried a fyddant yn ei ddarparu.



Mae'n rhaid i **Swyddogion Canlyniadau** nodi pam eu bod wedi penderfynu peidio â chynnwys cyfarpar y mae rhywun wedi gofyn amdano a rhoi gwybod iddynt pam.

## Hyfforddiant




Dylai staff mewn **gorsafoedd pleidleisio** dderbyn hyfforddiant fel eu bod yn gwybod sut i helpu pobl anabl.




Mae gennym gwybodaeth ar ein gwefan ac ar YouTube a allai helpu hyfforddi staff.



Rydym hefyd yn rhoi gwybodaeth i'r **Swyddogion Canlyniadau** y gallant ei defnyddio i helpu gyda'r hyfforddiant.

## Rhoi gwybod i bobl



Dylai **Swyddogion** Canlyniadau rhoi gwybod i bobl am yr hyn fydd yn digwydd mewn **gorsaf pleidleisio** a pha gymorth gallent ei chael.




Dylai **Swyddogion Canlyniadau** rhoi wybod i bobl anabl fod cymorth ar gael

fel y gallent bleidleisio yn **annibynnol** ac yn **gyfrinachol.**




Dylai **Swyddogion Canlyniadau** feddwl am roi gwybodaeth i bobl bob adeg o'r flwyddyn, nid cyn etholiad yn unig.




Gallent ddweud wrth bobl y canlynol:

- lle mae eu **gorsaf pleidleisio**
- sut gallent helpu pobl i bleidleisio




Gallent:

- anfon gwybodaeth mewn fformatau gwahanol
- rhannu enghreifftiau o'r **papurau pleidleisio**



**Gweithio gyda sefydliadau eraill**

Dylai **Swyddogion Canlyniadau** weithio gyda sefydliadau lleol eraill.



Gall sefydliadau lleol helpu **Swyddogion Canlyniadau** i benderfynu pa gymorth y gallai fod angen ar bobl anabl.



Gall trefnwyr lleol rhoi gwybod i bobl am yr hyn gallent gael.



Efallai bod gan sefydliadau lleol cyfarpar y gall **Swyddogion Canlyniadau** ei fenthyg i helpu pobl anabl i bleidleisio.

## Beth weithiodd yn dda



Ar ôl pob etholiad, dylai **Swyddogion Canlyniadau** edrych ar ba gymorth oedd gan bobl anabl i'w helpu i bleidleisio mewn **gorsafoedd pleidleisio**.



Gallai **Swyddogion Canlyniadau** ofyn i bobl a bleidleisiodd, sefydliadau lleol a staff **gorsafoedd pleidleisio** am yr hyn a weithiodd yn dda a'r hyn y gellid ei newid i helpu pobl anabl i bleidleisio.

## Geiriau a ddefnyddir yn y fersiwn hawdd ei ddarllen hwn



**datrysiadau sain** rhywbeth a fydd yn gadael i chi wrando ar wybodaeth fel nad oes rhaid i chi ddarllen.




**papur pleidleisio** Y darn o bapur rydych yn ei lenwi i bleidleisio.




**annibynnol** I wneud rhywbeth ar eich pen eich hun.



**bwth pleidleisio** Y rhan o'r gorsaf pleidleisio lle rydych yn llenwi'r papur pleidleisio.




**gorsaf bleidleisio** Y lleoliad lle rydych chi’n mynd i bleidleisio mewn etholiad.




**Swyddogion Canlyniadau** Y bobl sy’n gyfrifol am sut mae etholiadau yn cael eu cynnal yn eu hardal. Yng Ngogledd Iwerddon, y Prif Swyddog Etholiadol yw’r Swyddog Canlyniadau.



**cyfrinachol** Mae pleidleisio'n gyfrinachol yn golygu na all neb weld dros bwy rydych chi'n pleidleisio.

**Diolch i photosymbols**